**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Iechyd y Cyhoedd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020.

**Vaughan Gething AS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
15 Medi 2020

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/3108) ("y prif Reoliadau") a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/478) ("Rheoliadau 2004") sydd:

- yn dileu'r cyfyngiad bod rhaid i "fitaminau Cychwyn Iach" gael eu darparu ar ffurf tabledi neu ddiferion yn unig.
- yn diwygio'r diffiniad o "fwyd Cychwyn Iach" i gynnwys ffrwythau a llysiau a chodlysiau mewn tun.
- dileu'r gofyniad contractiol a roddir ar Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol i ddarparu tystiolaeth o feichiogrwydd i unigolion wrth wneud cais i'r cynllun Cychwyn Iach.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adran 13(1) a (6) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 ("Deddf 1988"); ac adrannau 47(1) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").

Mae adran 13 o Ddeddf 1988 yn ymwneud â chynlluniau budd-daliadau i wella maetheg i fenywod beichiog, mamau a phlant. Mae adran 13(1) yn darparu y caiff Rheoliadau sefydlu un neu ragor o gynlluniau i ddarparu budd-daliadau ar gyfer disgrifiadau rhagnodedig o fenywod beichiog, mamau a phlant gyda'r bwriad o'u helpu i gael mynediad at fwyd o ddisgrifiad rhagnodedig. Mae adran 13(6) o Ddeddf 1988 yn cadarnhau bod y pŵer i ragnodi disgrifiadau o fwyd i gael ei arfer, mewn perthynas â gweithredu cynllun yng Nghymru, trwy Reoliadau a wneir gan Senedd Cymru. Mae adran 13(11) o Ddeddf 1988 yn cadarnhau bod "bwyd" yn cynnwys fitaminau, mwynau ac atchwanegiadau deietegol eraill.

Amnewidiwyd adran 13 o Ddeddf 1988 gan adran 185(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Trwy rinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddir i Senedd Cymru gan adran 13(1) a (6) o Ddeddf 1988 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 47(1) o Ddeddf 2006 yn cadarnhau bod rhaid i Gontractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol gynnwys darpariaethau penodol neu

delerau gofynnol. Mae adran 203 yn ymwneud â phwerau o dan Ddeddf 2006 a gwneud Gorchmynion, Rheoliadau a Chyfarwyddiadau.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### *Cefndir Polisi*

Mae'r cynllun Cychwyn Iach ar gael i fenywod beichiog o dan 18 oed neu sy'n cael budd-daliadau cymwys penodol, ac i deuluoedd sydd â phlentyn o dan bedair oed sy'n cael budd-daliadau cymwys penodol. Mae'r cynllun yn gymwys i'r rheini yng Nghymru ac yn Lloegr ac mae'n gynllun sy'n dibynnu ar brawf modd. Mae'r cynllun yn darparu talebau i helpu i brynu rhai bwydydd sylfaenol fel ffrwythau, llysiau, llaeth a fformiwla babanod. Gall y rhai sy'n gymwys hefyd gael fitaminau am ddim. Nid yw'r cynllun wedi ei ddatganoli yng Nghymru, er bod gan Weinidogion Cymru bwerau i arfer swyddogaethau penodol, megis rhagnodi bwyd Cychwyn Iach.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn gweithio gydag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG i ddigideiddio'r cynllun Cychwyn Iach. Bwriad digideiddio yw gwneud y cynllun yn symlach i deuluoedd wneud cais am fudd-daliadau Cychwyn Iach, eu derbyn a'u defnyddio. Bydd y broses ymgeisio yn cael ei chynnal ar-lein, gan ddileu'r gofyniad i weithiwr gofal iechyd proffesiynol gydlofnodi a bydd y talebau papur yn cael eu disodli gan gardiau talu ymlaen llaw, gan hwyluso eu defnydd gan y derbynyddion a manwerthwyr.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r ystod o fwydydd Cychwyn Iach hefyd yn cael ei hymestyn o 1 Hydref 2020. Ar hyn o bryd mae'r rhestr yn cynnwys ffrwythau a llysiau ffres ac sydd wedi'u rhewi, llaeth buwch a fformiwla babanod sy'n addas i'w defnyddio o enedigaeth, a chaiff ei hymestyn i gynnwys ffrwythau a llysiau a chodlysiau mewn tun. Mae ymchwil wedi nodi bod rhai buddiolwyr yn ei chael hi'n haws storio a pharatoi ffrwythau a llysiau a chodlysiau mewn tun na rhai ffres a rhai sydd wedi'u rhewi, a gall yr eitemau hyn fod yn rhatach hefyd.

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau paredd wrth gyflwyno'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru a Lloegr.

### *Diwygiadau i'r Prif Reoliadau*

*Fitaminau*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i ddileu'r gofyniad mai ar ffurf tabledi neu ddiferion yn unig y caiff fitaminau eu darparu i fuddiolwyr y cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru. Bydd y Rheoliadau hyn yn helpu i sicrhau cysondeb â'r buddiolwyr hynny yn Lloegr, sydd â mynediad i fath ehangach sydd, o bosibl, yn fwy dymunol o fitamin. Bydd y Rheoliadau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau hynny a wnaed yn Lloegr gan Reoliad 2(3) o Reoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach a Bwyd Lles (Diwygiadau Amrywiol) 2017 (O.S. 2017/1032).

Mae angen y Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau y deddfir ar gyfer fitaminau Cychwyn Iach yng Nghymru a'u bod yn cael eu diogelu at y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae’r ffurf o fitaminau Cychwyn Iach y darperir ar eu cyfer trwy'r cynllun yng Nghymru yn gyson â'r hyn a nodir yn y prif Reoliadau hy diferion i blant a thabledi i fenywod. Fodd bynnag, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n trefnu’r contract ar gyfer gweithgynhyrchu'r fitaminau. Yn y dyfodol pan gaiff y contract ei roi ar dendr unwaith yn rhagor, bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ceisio sicrhau bod fitaminau mor hawdd i’w defnyddio â phosibl, y mae'r farchnad yn dangos eu bod ar gael yn gynyddol ar ffurfiau eraill fel capsiwlau jel, gymiau etc. Mae nifer y derbynyddion sydd wedi manteisio ar gael fitaminau yn isel iawn ar hyn o bryd. Rhagwelir felly y gallai unrhyw newid gynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt a bod o fudd i dderbynyddion yng Nghymru yn y pen draw.

*Bwyd Cychwyn Iach*
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i ehangu'r diffiniad o "fwyd Cychwyn Iach" i gynnwys ffrwythau a llysiau a chodlysiau mewn tun. Bydd y Rheoliadau hyn yn helpu i sicrhau bod buddiolwyr yng Nghymru yn gallu cael mynediad at yr un ystod o fwydydd Cychwyn Iach â buddiolwyr yn Lloegr. Bydd y Rheoliadau hyn yn adlewyrchu Rheoliad 17 o Reoliadau’r Cynllun Cychwyn Iach a Bwyd Lles (Diwygiadau Amrywiol) 2020 ("Rheoliadau 2020") (O.S. 2020/267) sy’n dod i rym ar 1 Hydref 2020. Cynigir y bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2020.

Mae effaith y Rheoliadau hyn yn golygu y bydd gan dderbynyddion Cychwyn Iach yng Nghymru fynediad at ystod ehangach o fwydydd Cychwyn Iach, gan gynnwys ffrwythau a llysiau mewn tun, y mae ymchwil wedi dangos bod rhai derbynyddion yn ei chael hi’n haws eu hymgorffori yn eu deiet. Gwella faint o ffrwythau a llysiau y mae pobl yn ei fwyta yw un o brif amcanion y cynllun Cychwyn Iach, sy'n ceisio cefnogi menywod beichiog a phlant o dan bedair oed mewn teuluoedd incwm isel i gael mynediad at ddeiet cytbwys iach.

***Diwygiadau i Reoliadau 2004***
Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 2004 i ddileu'r gofyniad i Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol ddarparu tystiolaeth o feichiogrwydd at ddibenion y cynllun Cychwyn Iach. Y rheswm am hyn yw y bydd y cynllun Cychwyn Iach yn cael ei ddigideiddio ac ni fydd tystysgrifau papur yn cael eu defnyddio mwyach.

Yn flaenorol, roedd Atodlen 2 o Reoliadau’r Cynllun Cychwyn Iach a Bwyd Lles (Diwygio) 2005 ("Rheoliadau 2005") (O.S. 2005/3262), sy'n gymwys i Gymru a Lloegr, yn ymwneud â gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer ymgeisio i'r cynllun Cychwyn Iach. Nododd paragraff 2 o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 y bydd tystiolaeth ysgrifenedig o ddyddiad esgor amcangyfrifedig menyw feichiog wedi’i llofnodi gan weithiwr iechyd proffesiynol yn cyd-fynd â hawliad mewn perthynas â’r fenyw feichiog. Diddymwyd y paragraff hwn gan Reoliad 16(b) o Reoliadau 2020 ac mae ei effaith yn gymwys yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae hyn yn golygu y gall y rheini sy'n feichiog wneud cais i’r cynllun Cychwyn Iach a darparu gwybodaeth am eu dyddiad esgor amcangyfrifedig. Ni fydd yn ofynnol i weithiwr iechyd proffesiynol gydlofnodi unrhyw hawliad a wneir.

Mae rheoliad 29 o Reoliadau 2020 wedi dileu'r gofyniad contractiol sydd ar Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol yn Lloegr i ddarparu tystiolaeth o feichiogrwydd at ddibenion y cynllun Cychwyn Iach. Mae'r Rheoliadau hyn yn ofynnol i ddileu'r gofyniad contractiol hwn ar Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol yng Nghymru. Ni fu'n bosibl meddwl am unrhyw amgylchiadau lle bydd yn ofynnol i Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol yng Nghymru fodloni eu rhwymedigaeth gontractiol i gyflwyno tystysgrif sy'n dangos tystiolaeth o feichiogrwydd. Fodd bynnag, mae angen y Rheoliadau hyn er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd yn y dyfodol, ac er mwyn rhoi eglurder i Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol yng Nghymru na fydd yn ofynnol iddynt fel rhan o'u contract, ddarparu tystysgrif sy'n dangos tystiolaeth o feichiogrwydd i’r cynllun Cychwyn Iach.

## 5. Ymgynghori

Ni fu ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU (yn enwedig yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) sydd wedi cyflwyno darpariaethau tebyg. Mae’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gwneud gwaith ymchwil helaeth ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gyda buddiolwyr Cychwyn Iach a menywod beichiog a theuluoedd sy'n gymwys i gael budd-daliadau Cychwyn Iach, ond nad ydynt yn eu hawlio. Cynhaliwyd ymchwil hefyd gyda manwerthwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r ymchwil hon a'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi llywio cynnwys y Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi cael ei gynnal ar gyfer y Rheoliadau hyn. Nid yw'r cynllun Cychwyn Iach, ac eithrio rhai swyddogaethau, wedi ei ddatganoli yng Nghymru, ac mae diwygiadau i'r cynllun yng Nghymru a Lloegr eisoes wedi cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau y gellir cyflwyno’r cynllun Cychwyn Iach yn gyson yng Nghymru a Lloegr. Disgwylir i'r effaith ar fusnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol fod yn fach iawn, a byddai'n gadarnhaol beth bynnag.

Nid yw Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020 yn cael unrhyw effaith ar ddyletswyddau statudol na phartneriaid statudol Deddf Llywodraeth Cymru 2006.